Rhagair

Yn y llyfryn *Cyfamodi at Genhadu*, a ddosbarthwyd yn helaeth i baratoi at Gydgynulliad 2012, gwahoddodd Comisiwn yr Eglwysi Cyfamodol ni i ddychmygu sut wedd a fyddai ar Eglwys yn Uno yng Nghymru.

Cydnabyddai ei bod yn debyg y byddai angen newid gwirioneddol mewn agwedd i symud oddi wrth ein strwythurau presennol o lywodraeth eglwysig. Golygai feddwl amdanom ein hunain eisoes i ryw raddau fel Yr Eglwys yn Uno yng Nghymru!

Byddai Eglwys o'r fath yn ymgorffori ein heglwysi ac enwadau cyfamodol, yn cadw ein holl draddodiadau unigryw ac yn adeiladu ar bopeth a wnaethom yn y gorffennol gan gymryd cam pendant ymlaen. Mewn gair, byddai'n gwneud yn weladwy yn y cyfnod a'r man lle'r ydym yn byw weledigaeth yr Apostol Paul: 'fel y mae gennym aelodau lawer mewn un corff, ond nad oes gan yr holl aelodau yr un gwaith, felly hefyd yr ydym ni, sy'n llawer, yn un corff yng Nghrist, ac yn aelodau bob un i'w gilydd' (Rhufeiniaid 12.4-5).

Rhaid darllen y papur hwn, felly, ochr yn ochr â phapur arall y Comisiwn ar Arolygiaeth Fugeiliol, sy'n gosod allan yr egwyddorion Beiblaidd a diwinyddol y tu ôl i'r argymhellion ymarferol hyn.

Meddyliwch am yr hyn yr ydych ar fedr ei ddarllen nid fel cynlluniau penodol ond yn fwy fel argraff, neu gyfres o argraffiadau arlunydd o'r wedd a allai fod ar Deulu Cyfamodol y Ffydd yma yng Nghymru. Ar derfyn y cyfnod ymgynghori, ein gobaith yw y daw'r argymhellion a wneir yn y ddogfen hon – wedi eu coethi, efallai, gan ein cyd–ddoethineb – yn gynigion at y dyfodol.

Pan gyfamododd ein rhagflaenwyr â'i gilydd 'i weithio a gweddïo mewn ufudd-dod unol i`n Harglwydd Iesu Grist', gwnaethant hynny 'fel y caffom drwy`r Ysbryd Glân ein dwyn i un Eglwys weledig i wasanaethu gyda`n gilydd mewn cenhadaeth'.

Un o'r pethau a fwriadent oedd 'ceisio ffurf ar lywodraeth Eglwysig a fydd yn diogelu y gwerthoedd cadarnhaol y mae pob un wedi sefyll drostynt'. A mynegir yn glir mai pwrpas hynny yw 'fel y bydd i`r Eglwys ffurfio meddwl cytûn a gweithredu arno fel un corff ar bob lefel o gyfrifoldeb drwy offerynnau cyfansoddiadol'.

Ddeugain mlynedd yn ddiweddarach fe all ein bod yn nesáu at weld ateb i'r weddi honno. Erbyn Cydgynulliad 2015, y gobaith yw nad dychmygu sut wedd a allai fod ar Eglwys yn Uno yng Nghymru a sut y gallem ni ffitio i mewn iddi, y byddwn mwyach, ond cyfarwyddo'r penseiri i fynd ymlaen â'r gwaith a dechrau gwneud y cynlluniau!

Gethin Abraham-Williams
Cadeirydd Comisiwn yr Eglwysi Cyfamodol yng Nghymru
2010 - 2012

1. Cylch Gorchwyl

1.1 Gofynnwyd i'r Gweithgor:

- archwilio sut y gellid rhannu llywodraeth eglwysig, gan ganolbwyntio'n arbennig ar y pethau tebyg yn nhrefniadau presennol yr enwadau;
- llunio dogfen y cytunodd y pum eglwys sy'n aelodau arni yn datgan yn glir pa ddull o lywodraethu a fyddai'n dderbyniol inni i gyd.

1.2 Yr oedd y Gweithgor yn ymwybodol fod yn rhaid trafod y mater hwn:

- yn y tymor canolig: os cytuna'r Eglwysi Cyfamodol â gwahoddiad y Comisiwn i feddwl amdanynt eu hunain fel 'yr Eglwys yn Uno yng Nghymru', pa newidiadau, os newidiadau o gwbl, a fydd yn angenrheidiol i'w dulliau llywodraethu presennol?
- yn yr hirdymor: os bydd yr Eglwysi Cyfamodol yng Nghymru yn sicrhau undod organig, pa ddull o lywodraethu fydd yn dderbyniol i'r Eglwys newydd?
- yn y tymor byr: pa ddull o lywodraeth eglwysig sy'n dderbyniol ac yn ymarferol yn achos Partneriaethau Eciwmenaidd Lleol?

2. Strwythurau Presennol

2.1 Cychwynnodd y Gweithgor ar ei waith trwy grynhoi'r sefyllfa bresennol.

2.2 **Yr Eglwys yng Nghymru**

2.2.1 Rhennir yr Eglwys yng Nghymru yn chwe **esgobaeth**, Bangor, Llanelwy, Tyddewi, Abertawe ac Aberhonddu, Llandaf a Mynwy. Gweinyddir pob esgobaeth gan **Esgob**, y rhoddodd yr Eglwys iddo gyfrifoldeb arbennig dros faterion yn ymwneud â ffydd, cenhadaeth a gweinidogaeth ac ***am ordeinio gweinidogion newydd***. Rhennir pob esgobaeth yn ddwy neu dair o **archddiaconiaethau**, a rhennir y rheini ymhellach yn nifer o **ddeoniaethau**.

2.2.2 Yr uned weinyddol sylfaenol yw'r **plwyf**, y gofelir amdano gan **Beriglor**, a gynorthwyir weithiau gan **Gurad Cynorthwyol** a/neu gan un neu fwy o **Ddarllenwyr Lleyg** a phob amser gan ddau **Warden Eglwys**. Y mae oddeutu 900 o blwyfi, y rhan fwyaf ohonynt wedi eu grwpio'n fywoliaethau y gofelir amdanynt gan fwy na 500 o weinidogion ordeiniedig.

2.2.3 Prif gyngor deddfwriaethol yr Eglwys yw'r **Corff Llywodraethol**, sy'n cyfarfod ddwywaith y flwyddyn. Mae'n cynnwys tair Urdd: Esgobion (6), Clerigion (51) a Lleygion (86), cyfanswm o 143. Etholir y rhan fwyaf o'r cynrychiolwyr Clerigol a Lleyg gan yr esgobaethau. Rhaid i benderfyniadau dadleuol sicrhau mwyafrif yn y tair Urdd.

2.2.4 Y mae gan bob esgobaeth ei **Chynhadledd Esgobaethol**, sy'n gyfrifol am fywyd yr esgobaeth. Mae'n trefnu'r gofal bugeiliol oddi mewn i'r esgobaeth, yn derbyn adroddiadau oddi wrth amryw o fyrddau a phwyllgorau esgobaethol ac yn derbyn adroddiad blynyddol a chyfrifon yr esgobaeth. Y deoniaethau sy'n ethol ei haelodau.

2.2.5 Y mae gan bob **Deoniaeth** hefyd ei Chynhadledd. Ei gwaith hi yw hyrwyddo cenhadaeth yr Eglwys yn y ddeoniaeth. Etholir ei haelodau gan y **Cynghorau Plwyf Eglwysig**, sy'n cynorthwyo'r Periglor a'r Wardeniaid yng ngwaith yr Eglwys yn y plwyf. Yn y Festri flynyddol yr etholir eu haelodau hwy.

2.2.6 Deil **Corff y Cynrychiolwyr** asedau (ar hyn o bryd oddeutu 1,500 o eglwysi, 650 o bersondai a buddsoddiadau o oddeutu £370m) mewn ymddiriedolaeth i'r Eglwys. Defnyddir yr incwm o'i fuddsoddiadau i gynnal gwaith yr Eglwys. Y mae iddo 26 o aelodau; etholir oddeutu eu hanner gan yr esgobaethau.

2.3 Eglwysi'r Bedyddwyr Cyfamodol

2.3.1 Trefna pob **cynulleidfa leol** o Fedyddwyr ei bywyd ei hun. Gall ymuno'n wirfoddol â **Chymanfa** ranbarthol ac â grwpiau mwy, e.e. **Undeb Bedyddwyr Prydain Fawr**, a all, yn ei dro, ymuno â **Chynghrair Bedyddwyr y Byd**. ***Gall eglwys ordeinio'r sawl a fyn***, pa un bynnag a yw Undeb y Bedyddwyr yn ei gefnogi ai peidio. Mae rhai cynulleidfaoedd yn dewis bod yn annibynnol. I'r mwyafrif, fodd bynnag, mae'r Undeb, a hefyd eu Cymanfa leol, yn bwysig iawn. **Y patrwm arferol yw ordeinio yn yr eglwys sy'n anfon (h.y. yr eglwys gartref)**. Wedi hynny, bydd gwasanaeth sefydlu yn yr eglwys sy'n galw. Ar hyn o bryd y mae 14 o Eglwysi Bedyddwyr Cyfamodol yng Nghymru, a 6 gweinidog ordeiniedig o blith y Bedyddwyr yn eu gwasanaethu.

2.3.2*a* Rhennir **Undeb y Bedyddwyr** yn **13 Cymanfa**. Mae'r Cymanfaoedd yn cyflogi tîm o Weinidogion Rhanbarthol a staff gweinyddol i roi cefnogaeth fugeiliol i'r eglwys leol, cynghori ar genhadaeth a materion ymarferol a threfnu achlysuron hyfforddi. Etholir **Llywydd Undeb y Bedyddwyr** yn flynyddol, ac y mae pleidlais gan bob un o'r eglwysi a chan bob gweinidog mewn gofal bugeiliol. Dewisir aelodau **Cyngor Undeb y Bedyddwyr** gan y Gymanfa leol a chyrff cysylltiedig eraill. Mae'n debyg mai'r maes mwyaf y mae'r Cyngor hwnnw'n ymwneud ag ef yw cyllid, yn enwedig Grantiau Cenhadol yr Undeb.

2.3.2*b* Yn ogystal â'r Cyngor, y mae gan Undeb y Bedyddwyr yn awr **Fwrdd Ymddiriedolwyr** i arolygu gwaith yr Undeb. Y duedd yn y Cyngor yw trafod materion o bwys i'r teulu Bedyddiedig ac arolygu gwaith gwahanol adrannau a staff yr Undeb. Pwyllgorau'r Undeb sy'n arolygu pethau fel cofrestr y gweinidogion achredig a pharatoi rhaglenni. Yn yr un modd, is-bwyllgor, ar y cyd â Chymdeithas Genhadol y Bedyddwyr, sy'n trefnu'r **Gymanfa** flynyddol. Er mai un nodwedd ar Undeb y Bedyddwyr yw nad oes ganddo awdurdod dros eglwysi lleol, y mae mwyafrif y gweinidogion yn achredig ac yn gweithredu mewn modd y mae'r Undeb yn ei gymeradwyo.

2.3.3 Y mae gan y rhan fwyaf o eglwysi'r Bedyddwyr **Ddiaconiaid**, a etholir (fel yr etholir Gweinidogion) trwy bleidlais aelodau'r eglwys. Y Diaconiaid, ynghyd â'r Gweinidog (os oes un) yw rheolwyr-ymddiriedolwyr yr eglwys; eu gwaith hwy yw gweinyddu bywyd yr eglwys ar gyfarwyddyd cwrdd aelodau'r eglwys, lle y cais pawb ddirnad meddwl Crist.

2.4 Yr Eglwys Fethodistaidd

2.4.1 **Cyfundeb** o eglwysi, cylchdeithiau a thaleithiau yw'r Eglwys Fethodistaidd ym Mhrydain. Yr **eglwys leol** yw'r addoldy cynulleidfaol. **Cylchdaith** yw grŵp o eglwysi lleol a wasanaethir gan dîm o bregethwyr lleol a gweinidogion, yn cynnwys arolygydd cylchdaith. Mae'r **dalaith** yn gwasanaethu grŵp daearyddol o gylchdeithiau ac fe'i harweinir gan gadeirydd y dalaith.

2.4.2 Yng Nghymru, y mae dwy dalaith Fethodistaidd – y **Wales Synod**, sy'n gweithio gan fwyaf yn Saesneg, a **Synod Cymru**, sy'n gweithio gan fwyaf yn Gymraeg. Daw'r ddwy Synod at ei gilydd yn y **Cyngor/the Council** i drafod materion o ddiddordeb cyffredin ac i rannu adnoddau. Cyrff arolygu yw'r Synodau Taleithiol a'r Cyngor. Hwy sy'n llunio polisi'r dalaith a gallant ddod â materion i sylw'r Gynhadledd. Byddant hefyd yn cynnal synod gweinidogion i henuriaid a diaconiaid, sy'n gyfle nid yn unig i drafod ond i hyfforddi hefyd yn y weinidogaeth. Gan y **Gynhadledd Fethodistaidd** y mae'r awdurdod terfynol.

2.4.3 Cyferfydd y **Gynhadledd Fethodistaidd** mewn gwahanol fannau ym Mhrydain, a hi yw prif gorff gwneud penderfyniadau'r Eglwys. Etholir y **Llywydd** a'r **Is-Lywydd** i lywyddu ar y Gynhadledd, ymgorffori ei hawdurdod a chynrychioli Methodistiaeth i'r byd.

2.4.4 ***Bydd y Gynhadledd Fethodistaidd yn ordeinio gweinidogion*** ac yn eu hanfon i wahanol gylchdeithiau (nid i eglwysi unigol). Y mae yn y **Wales Synod** 16 o gylchdeithiau a rhyw 200 o eglwysi a wasanaethir gan ryw 70 o weinidogion (yn cynnwys gweinidogion o draddodiadau eraill); y mae yn **Synod Cymru** 1 gylchdaith o 12 ardal a wasanaethir gan 15 o weinidogion (yn cynnwys gweinidogion o draddodiadau eraill).

2.5 Eglwys Bresbyteraidd Cymru

2.5.1 Y mae pob eglwys oddi mewn i Eglwys Bresbyteraidd Cymru yn atebol i **henaduriaeth**, corff rhanbarthol sy'n cyfarfod bob chwarter. Y mae 14 o henaduriaethau, a phob un yn gyfrifol am gynllunio'r gwaith gweinidogaethol a chenhadol oddi mewn i'w ffiniau. Gall yr henaduriaethau hefyd arolygu galw gweinidogion, ordeinio blaenoriaid ac arolygu gwaith yr Ysgol Sul a'r bobl ifainc. Y mae gan yr Eglwys 44 o weinidogion amser-llawn, 12 gweinidog rhan-amser a mwy na 300 o flaenoriaid.

2.5.2 Rhennir yr henaduriaethau yn dair **cymdeithasfa**: **y Gymdeithasfa yn y De, y Gymdeithasfa yn y Dwyrain** a'r **Gymdeithasfa yn y Gogledd**. Cyferfydd y rhain ddwywaith y flwyddyn i arolygu a chymeradwyo gwaith yr henaduriaethau. ***Y maent hefyd yn gyfrifol am ordeinio gweinidogion.***

2.5.3 Y canolbwynt blynyddol yw'r **Gymanfa Gyffredinol**, a gynhelir am dridiau ym mis Gorffennaf. Etholir **Llywydd** i'r Gymanfa Gyffredinol bob blwyddyn. Y mae iddi dri Bwrdd: **Bwrdd y Gymanfa Gyffredinol** (yn ymgorffori Adran yr Eglwys a Chymdeithas, y Bwrdd Pensiynau a'r Paneli a ganlyn: Archwilio, Monitro'r Swyddfa, Cyhoeddusrwydd a Chyhoeddi, Addoliad ac Athrawiaeth, Enwebiadau, Materion Eciwmenaidd, y Gymdeithas Hanes, Bwrdd y Ddarlith Davies), y **Bwrdd Bywyd a Thystiolaeth** (yn ymgorffori'r Adrannau a ganlyn: Ymgeiswyr a Hyfforddiant, Ieuenctid a Phlant, Gweinidogaethau, Merched, Ysbrydolrwydd, yr Eglwys Fyd-eang) a'r **Bwrdd Adnoddau** (yn ymgorffori Adrannau Coleg y Bala, Coleg Trefeca, Ceisiadau a Pholisi, Perfformiad).

2.5.4 Y mae'r **Swyddfa Ganolog** yng Nghaerdydd. Staff y Swyddfa sy'n gyfrifol am weinyddu'r Eglwys. Rheolir y swyddfa gan yr **Ysgrifennydd Cyffredinol**, sy'n atebol i'r Gymanfa Gyffredinol.

2.6 Yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig

2.6.1 Y mae Synod Cymru yn un o 13 Synod yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig yn y Deyrnas Gyfunol ac, ynghyd â Synod yr Alban, yn un o'i dwy Synod Genedlaethol. Y mae gan yr Eglwys oddeutu 110 o eglwysi ledled Cymru. Mae'n rhan o'r gangen o Gristnogaeth a elwir yn 'ddiwygiedig' a thrwy sawl uno dros y 39 mlynedd diwethaf dygodd ynghyd Bresbyteriaid Lloegr, Annibynwyr o Loegr, Cymru a'r Alban ac aelodau o Eglwysi Crist.

2.6.2 Yng Nghymru, y mae'r Eglwys Ddiwygiedig Unedig yn cynnal 26 o weinidogion, ac arweinir pob eglwys gan nifer o flaenoriaid ordeiniedig sy'n rhannu â'r gweinidog arolygiaeth fugeiliol yr eglwys. Y mae mwy na thraean yr eglwysi mewn partneriaeth eciwmenaidd ag eglwysi sy'n perthyn i'r Anglicaniaid, y Bedyddwyr Cyfamodol, y Methodistiaid neu'r Presbyteriaid. Llywodraethir pob **Eglwys Leol** gan Gwrdd Eglwys sy'n cynnwys ei holl aelodau. Ei swyddogaeth yw 'hyrwyddo cenhadaeth yr Eglwys yn y gymdogaeth'. Rhennir Synod Cymru yn **8 Rhanbarth** a gall yr eglwysi, o bryd i'w gilydd, ymgynnull mewn achlysuron rhanbarthol, neu anfon cynrychiolwyr iddynt. Gwna'r rhanbarthau hyn i hwyluso cyfathrebu a chymdeithasu â'i gilydd. Nid oes gan unrhyw gynulliad o'r fath unrhyw ran yn llywodraeth yr eglwys leol na'r enwad.

2.6.3 Gwasanaethir **Synod** Genedlaethol Cymru gan **Swyddogion y Synod** a **Chyngor y Synod**, sy'n datblygu'r weledigaeth ac yn gosod blaenoriaethau. Gweithredir polisïau mewn meysydd penodol megis cenhadu, eiddo a chyllid, arweinyddiaeth a datblygu arweinyddiaeth gan **Fyrddau**, y gall yr Eglwysi Lleol gysylltu'n uniongyrchol â hwy. Y mae **Rhwydweithiau** i ddarparu gwybodaeth a chysylltu â'i gilydd bobl sydd â diddordeb. Gelwir **Blaenoriaid y Synod** i hyrwyddo a chynrychioli bywyd y Synod yn yr **8 Rhanbarth**. Cynlluniwyd strwythurau'r Synod i gyfoethogi a galluogi bywyd a chenhadaeth yr **Eglwys Leol.** ***Fel rheol, Llywydd y Synod sy'n llywyddu pan ordeinir a sefydlu gweinidogion.***

2.6.4 Y mae i'r Eglwys Ddiwygiedig Unedig **Gymanfa Gyffredinol** sy'n dod â chynrychiolwyr ledled y Deyrnas Gyfunol ynghyd bob dwy flynedd. Llywyddir y Gymanfa gan ddau **Lywydd**, un yn weinidog ordeiniedig y Gair a'r Sacramentau, a'r llall yn Flaenor yn yr Eglwys, ond heb ei ordeinio'n weinidog. Fe'u hetholir yn y Gymanfa Gyffredinol cyn yr un y byddant yn llywyddu arni. Cynghorir y Gymanfa Gyffredinol gan ei **Chyngor Cenhadu**. Mae'n trefnu gweithgaredd yr Eglwys ledled Prydain, yn penodi staff canolog, yn derbyn adroddiadau oddi wrth bwyllgorau cenedlaethol ac yn delio ag adroddiadau a chynlluniau o bwys. Bwriedir i'r Gymanfa Gyffredinol ymgorffori undod yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig a hi, felly, yw'r awdurdod terfynol ar faterion athrawiaeth a threfn a phopeth arall y mae a wnelo â'i bywyd cyffredin.

3. Sylwadau

3.1 Nododd y Gweithgor y gwahanol ddulliau o ordeinio yn y gwahanol draddodiadau:

- Yn yr Eglwys yng Nghymru, yr esgob sy'n gyfrifol am ordeinio, am geisio a chomisiynu'r sawl a alwyd gan Dduw; mae'n ordeinio diaconiaid ac offeiriaid.
- Mewn eglwysi Bedyddiedig, y patrwm arferol yw ordeinio yn yr eglwys sy'n anfon (h.y. yr eglwys gartref) ac, fel rheol, bydd gweinidogion gwadd yn cymryd rhan. Gall yr ordeinio gynnwys arddodi dwylo, ond nid oes gan yr un o'r gweinidogion gwadd hawl awtomatig i wneud hynny. Digwydd y cyfan ar gais y gynulleidfa leol.
- Yn yr Eglwys Fethodistaidd, ordeinir gweinidogion ar ran y Cyfundeb yn y Gynhadledd flynyddol. Llywydd y Gynhadledd neu un o'i Chyn-Lywyddion fydd yn llywyddu yn y Gwasanaeth Ordeinio.
- Yn Eglwys Bresbyteraidd Cymru, ordeinir gweinidogion gan y Gymdeithasfa yn y tair Talaith i wasanaethu'r enwad cyfan. Llywydd y Gymdeithasfa fydd yn llywyddu yn y Gwasanaeth Ordeinio. Gall y Llywydd, a etholir yn flynyddol, fod yn weinidog ordeiniedig neu'n flaenor ordeiniedig.
- Yn yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig, yr eglwys – leol a chatholig – wedi ymgynnull mewn cyngor sy'n ordeinio gweinidogion y Gair a'r Sacramentau. Fel rheol, cynhelir y gwasanaeth yn yr ofalaeth gyntaf y galwyd y gweinidog iddi ac, fel rheol, Llywydd y Synod fydd yn llywyddu. Bydd yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig hefyd yn ordeinio dynion a merched yn flaenoriaid. Unwaith yn unig yr ordeinir blaenoriaid; yna fe'u sefydlir i wasanaethu. Cydnabyddir y swydd o flaenor ledled yr eglwys ond fe'i hymarferir yn lleol yn dilyn etholiad gan Gwrdd Eglwys. Gweinidog yr eglwys, fel rheol, fydd yn llywyddu mewn gwasanaeth ordeinio blaenor.

3.2 Nodwyd hefyd bod y strwythurau llywodraethu'n gwahaniaethu'n sylweddol:

3.2.1 Y mae'r Eglwysi Anglicanaidd a Phresbyteraidd yn gweithredu ar lefel genedlaethol yng Nghymru, ond yr Eglwysi Methodistaidd a Diwygiedig Unedig yn gweithredu ar lefel Brydeinig.

3.2.2 Nid oes gan eglwysi'r Bedyddwyr Cyfamodol yr un llys cenedlaethol awdurdodol.

3.2.3 Y mae cryn dipyn o amrywiaeth yn y cyrff sy'n dwyn awdurdod:

- Yn yr Eglwys Anglicanaidd y Corff Llywodraethol yw'r awdurdod ffurfiol, ond y mae'r Esgobaethau'n ymreolus i raddau helaeth; mewn ystyr gwirioneddol iawn, cynulliad yw'r Eglwys yng Nghymru o chwe eglwys wedi'i seilio ar ei chwe Esgobaeth.
- Mewn eglwysi Bedyddiedig y mae'r Gynulleidfa Leol yn llwyr ymreolus.
- Yn yr Eglwys Fethodistaidd rhennir awdurdod rhwng eglwysi, cylchdeithiau a thaleithiau a chan y Gynhadledd y mae'r awdurdod terfynol.
- Yn yr Eglwys Bresbyteraidd y Gymanfa Gyffredinol yw'r awdurdod ffurfiol ond, yn ymarferol, y mae grym hefyd gan y Gymdeithasfa a'r Henaduriaethau.
- Yn yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig Cynghorau'r Eglwys – y Cwrdd Eglwys, y Synod a'r Gymanfa Gyffredinol – yw'r awdurdodau.

3.2.4 Y mae gan sawl Eglwys strwythurau sy'n cyfateb yn fras i'w gilydd, er enghraifft y mae'r 15 archddiaconiaeth Anglicanaidd yn cyfateb yn fras i'r 16 cylchdaith Fethodistaidd, y 14 henaduriaeth Bresbyteraidd a 12 rhanbarth yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig, ond nid oes gan archddiaconiaeth Anglicanaidd na rhanbarth o'r Eglwys Ddiwygiedig Unedig yr awdurdod sydd gan gylchdaith Fethodistaidd a henaduriaeth Bresbyteraidd.

3.3 Llywiwyd trafodaethau'r Pwyllgor gan yr ystyriaethau a ganlyn:

3.3.1 mai uchelgais hirdymor y Comisiwn yw sefydlu

- Eglwys Cymru a fydd yn rhannu un ffydd, un strwythur, un weinidogaeth ac un llywodraeth, ond
- a fydd yn anrhydeddu ac yn dathlu'r gwahanol bwysleisiau diwinyddol a thraddodiadau addoli a'i ffurfiodd ac sy'n ei chyfoethogi fel cyfangorff;

3.3.2. bod yr Eglwys yng Nghymru ac Eglwys Bresbyteraidd Cymru wedi cychwyn Arolwg o'u strwythurau enwadol;

3.3.3 bod y Comisiwn yn gwahodd yr Eglwysi Cyfamodol i feddwl amdanynt eu hunain fel yr Eglwys yn Uno yng Nghymru, a fydd yn cynnwys naw awdurdodaeth (y chwe esgobaeth Anglicanaidd bresennol a thair arall – awdurdodaeth Fethodistaidd, awdurdodaeth Bresbyteraidd ac awdurdodaeth Ddiwygiedig Unedig/Fedyddiedig Gyfamodol, a phob un o'r rhain yn penodi ei hesgob ei hun). Yr oedd y Gweithgor o'r farn fod hyn yn gam hanfodol at undod gweladwy llawn, a seiliodd ei argymhellion ar y rhagdybiaeth y bydd yr Eglwysi sy'n aelodau yn derbyn y gwahoddiad.

4. Argymhellion at y Tymor Canolig

4.1. Mae'r Gweithgor **yn argymell** na fydd yn rhaid galw'r awdurdodaethau Methodistaidd, Presbyteraidd, Diwygiedig Unedig/Bedyddiedig Cyfamodol yn 'esgobaethau', er y byddant yn gweithredu fel esgobaethau oddi mewn i'r Eglwys yn Uno yng Nghymru. Yn dilyn yr egwyddor o 'undod mewn amrywiaeth', nid oes dim i rwystro bod, dyweder, *Dalaith* Fethodistaidd, *Cymdeithasfa* Bresbyteraidd a *Rhanbarth* Ddiwygiedig Unedig/Fedyddiedig Gyfamodol yn cyfateb i'r *Esgobaethau* Anglicanaidd oddi mewn i'r Eglwys yn Uno.

4.2. Mae'r Gweithgor **yn argymell** bod pob awdurdodaeth sy'n aelod, yn dilyn derbyn gwahoddiad y Comisiwn a amlinellir yn 3.3.3, yn parhau, yn y tymor byr, i weithredu ei ffurflywodraeth eglwysig bresennol, ac eithrio, wrth gwrs, unwaith yr etholir esgob mai'r esgob hwnnw a fydd yn cynnal pob ordinasiwn o fewn ei awdurdodaeth ef.

4.3. Er nad yw'r Gweithgor yn rhagweld y bydd angen unrhyw newidiadau disyfyd i ffurflywodraeth unrhyw awdurdodaeth sy'n aelod, y mae'n amlwg y bydd angen rhyw gorff trosfwaol lle y gall y naw awdurdodaeth ymgynghori â'i gilydd. Patrwm posibl i gorff o'r fath yw Cydgynulliad yr Eglwysi Cyfamodol, y cynhelir y cyntaf yn Aberystwyth yn 2012. Ar hyn o bryd, bwriedir i hwn fod yn gynulliad tairblynddol. Mae'r Gweithgor **yn argymell**, wedi i'r Eglwysi dderbyn gwahoddiad y Comisiwn a amlinellir yn 3.3.3, cynnal y Cydgynulliad bob blwyddyn.

5. Argymhellion Hirdymor

5.1 Teimla'r Gweithgor fod llawer o oblygiadau cyfreithiol ac ariannol undod eglwysig y tu hwnt i'w gylch gorchwyl, ac y mae'n argymell, yn dilyn derbyn gwahoddiad y Comisiwn a amlinellir yn 3.3.3, bod gofyn i arweinwyr, cyfreithwyr a gweinyddwyr yn cynrychioli'r pum Eglwys sy'n aelodau lunio, cyn pen cyfnod o bum mlynedd yn dilyn derbyn y gwahoddiad, Gynllun a Chyfansoddiad, yn cynnwys gweithdrefn bleidleisio, wedi'u seilio ar yr argymhellion a ganlyn.

5.2 Mae'r Gweithgor **yn argymell** bod, yn yr hirdymor, un Corff Llywodraethol i naw awdurdodaeth yr Eglwys yn Uno. Patrwm posibl yw Cydgynulliad yr Eglwysi Cyfamodol (gweler 4.3 uchod) a allai ddatblygu i fod yn Gydgynulliad yr Eglwys yn Uno yng Nghymru. Byddai'r Cydgynulliad hwnnw yn cyfarfod ddwywaith y flwyddyn.

5.2.1 Bydd y Cydgynulliad yn mabwysiadu Cyfansoddiad i'r Eglwys yn Uno a fydd yn rhwymo ei holl aelodau. Bydd hefyd yn awdurdodi'r ffurfiau gwasanaeth y mae'r Eglwysi sy'n aelodau yn eu defnyddio ar hyn o bryd.

5.2.2 Dim ond y Cydgynulliad a all newid y Cyfansoddiad, gwneud datganiadau athrawiaethol, comisiynu ffurfiau gwasanaeth newydd neu newid y rhai presennol neu newid darpariaethau yn ymwneud â ffydd a disgyblaeth.

5.3 Mae'r Gweithgor **yn argymell** bod naw awdurdodaeth, chwech ohonynt i'w hadnabod fel 'esgobaethau' a thair a all gymryd teitl arall (e.e. talaith, cymdeithasfa, rhanbarth). Bydd pob un o'r awdurdodaethau hyn yn cynnal ei Chynhadledd flynyddol ei hun.

5.3.1 Mewn ymgynghoriad â'r Cydgynulliad, bydd pob Cynhadledd yn rheoli ei materion ei hun, ei chyllid ei hun a'i heiddo ei hun.

5.3.2 Bydd pob Cynhadledd yn ethol aelodau i'r Cydgynulliad, y bydd ganddo 240 o aelodau. Bydd pob un o'r esgobaethau Anglicanaidd yn ethol 20 aelod, cyfanswm o 120; bydd pob un o'r tair awdurdodaeth arall yn ethol 40 aelod, cyfanswm o 120.

5.4 Mae'r Gweithgor **yn argymell**, yn dilyn yr egwyddor o 'undod mewn amrywiaeth', fod aelodau pob Cynhadledd yn cael eu hethol yn ôl arfer pob enwad ar hyn o bryd.

5.5 Er mwyn sicrhau bod gan yr Eglwys bresenoldeb parhaus ym mhob rhan o Gymru, mae'r Gweithgor **yn argymell** mabswysiadu trefn **blwyfol** a fydd yn galluogi eglwysi sy'n tarddu o wahanol enwadau i fod mewn perthynas leol â'i gilydd ac i gyd-genhadu.

5.5.1 Y nod fydd bod pob plwyf yng ngofal gweinidog. Gall fod sawl gweinidog mewn plwyfi mawr.

5.5.2 Bydd gan bob plwyf Gyngor Plwyf yn cynrychioli holl eglwysi'r plwyf. Ei orchwyl fydd hyrwyddo cenhadaeth yr Eglwys yn y plwyf.

5.5.3 I sicrhau parhad traddodiad, bydd pob eglwys yn y plwyf yn parhau mewn perthynas â'r awdurdodaeth yr oedd yn perthyn iddi'n wreiddiol.

5.5.4 Pan fo pob eglwys yn y plwyf yn perthyn i'r un awdurdodaeth, bydd y Cyngor Plwyf yn gofalu hefyd am gyllid ac eiddo'r plwyf. Bydd y Cyngor Plwyf yn gweithredu unrhyw ddarpariaethau a wneir gan y Cydgynulliad neu'r awdurdodaeth, yn dwyn achosion gerbron y cyrff hyn ac yn ethol cynrychiolwyr i Gynhadledd yr awdurdodaeth yn ôl arfer yr awdurdodaeth.

5.5.5 Pan fo eglwysi'r plwyf yn perthyn i wahanol awdurdodaethau, bydd gan bob eglwys ei Chyngor Eglwys ei hun i ofalu am gyllid ac eiddo. Mewn achosion o'r fath, Cyngor yr Eglwys fydd yn ethol cynrychiolwyr i Gynhadledd yr awdurdodaeth, yn ôl arfer yr awdurdodaeth. Rhennir y gorchwyl o weithredu unrhyw ddarpariaethau a wneir gan y Cydgynulliad neu'r awdurdodaeth ac o ddwyn achosion gerbron y cyrff rhwng Cyngor yr Eglwys a'r Cyngor Plwyf, y ddau'n cydweithio â'i gilydd i hyrwyddo cenhadaeth yr Eglwys yn y plwyf.

5.5.6 Etholir aelodau'r Cyngor Plwyf yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol holl eglwysi'r plwyf.

5.5.7 Gall sefyllfa godi pan fo gweinidog plwyf yn perthyn i draddodiad gwahanol i'r eiddo un neu fwy o eglwysi'r plwyf. Mewn achosion o'r fath, gall y gweinidog barhau i berthyn i'r awdurdodaeth sydd fwyaf addas iddo, ond bydd yn ceisio sicrhau bod pob eglwys (trwy ei Chyngor Eglwys lleol) yn parhau i berthyn i'w hawdurdodaeth hithau, mewn modd priodol na fydd yn llesteirio cenhadaeth y plwyf (trwy'r Cyngor Plwyf). Gweithredir y weinidogaeth hon yng ngoleuni argymhelliad 6.2 (isod).

5.6 Mae'r Gweithgor **yn argymell** rhoi i'r Eglwys leol gymaint o ymreolaeth ag sy'n ymarferol bosibl oddi mewn i'r strwythur a gynigir.

5.7 Mae'r Gweithgor **yn argymell** gwneud trefniadau gofalus at reoli asedau'r Eglwys yn Uno gan un corff, ond bod cyfyngu'r defnydd o asedau pob cyn-Eglwys Gyfamodol i'r awdurdodaeth sy'n cynrychioli'r awdurdodaeth honno (e.e. ni fydd asedau presennol Eglwys Bresbyteraidd Cymru i'w defnyddio ond oddi mewn i'r awdurdodaeth Bresbyteraidd).

6. Argymhellion Tymor Byr

6.1 Yr oedd y Gweithgor yn ymwybodol o'r anawsterau mewn Partneriaethau Eciwmenaidd Lleol pan ddisgwylir i'r gweinidog adrodd i fwy nag un strwythur enwadol a mynychu sawl llys enwadol. Y mae hyn yn faich dianghenraid.

6.2 Mae'r Gweithgor **yn argymell** bod Partneriaethau Eciwmenaidd Lleol yn mabwysiadu'r egwyddorion a ganlyn:

- annog ond nid gorfodi gweinidogion i fynychu llys enwad nad ydynt yn perthyn iddo; a
- bod eglwysi mewn Partneriaeth Eciwmenaidd Leol yn ymddiried gweinyddu'r Bartneriaeth i Gorff Noddi a benodwyd o blith aelodau Comisiwn yr Eglwysi Cyfamodol neu Cytûn.

ATODIAD 1

AELODAU'R GWEITHGOR AR LYWODRAETH EGLWYSIG

Y Parchedig Gwynn ap Gwilym .....Yr Eglwys yng Nghymru
Y Parchedig Ddr Bernard Sixtus .....Yr Eglwys yng Nghymru
Y Parchedig John Henson .....Eglwysi'r Bedyddwyr Cyfamodol
Y Parchedig Gordon Sollis..... Yr Eglwys Fethodistaidd yng Nghymru
Y Parchedig Ifan Roberts.....Eglwys Bresbyteraidd Cymru
Y Parchedig Bryn Williams.....Eglwys Bresbyteraidd Cymru
Y Parchedig Ddr Robert Pope ..... Yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig
Ms Rhian Linecar..... Swyddog Ffydd, Trefn a Thystiolaeth Cytûn

AELODAU'R COMISIWN 2012

Y Parchedig Ddr Marc Dummer
Y Parchedig John Garland
Mr John Thorne .....Eglwysi'r Bedyddwyr Cyfamodol

Y Gwir Barchedig Wyn Evans, Esgob Tyddewi
Y Parchedig Gwynn ap Gwilym
Y Parchedig Ganon Sue Huyton
Y Parchedig Steve Wilson .....Yr Eglwys yng Nghymru

Y Parchedig Cathy Gale*
Y Parchedig Delyth Liddell
Y Parchedig Gordon Sollis..... Yr Eglwys Fethodistaidd yng Nghymru

Y Parchedig Bryn Williams
Y Parchedig Brian Matthews
Mrs Nia Higginbotham
Y Parchedig Marcus Robinson .....Eglwys Bresbyteraidd Cymru

Y Parchedig Peter Noble
Y Parchedig Stuart Jackson
Mrs Ann Shillaker ..... Yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig

Y Parchedig Gethin Abraham-Williams (Cadeirydd)
Y Parchedig Aled Edwards (Prif Weithredwr, Cytûn)
Y Parchedig Anthony Gregory (Trysorydd Mygedol)
Ms Rhian Linecar (Swyddog Ffydd, Trefn a Thystiolaeth Cytûn)
..... Aelodau yn Rhinwedd Swydd

Y Parchedig Ddr Sarah Rogers
(aelod o Bwyllgor Canolog Cyngor Eglwysi'r Byd)
Y Parchedig Ddr Bernard Sixtus
(Sylwedydd yr Eglwys yng Nghymru ar Gydgomisiwn Gweithredu'r Cyfamod rhwng Eglwys Fethodistaidd Prydain ac Eglwys Loegr).....Sylwedyddion

Y Parchedig Ddr Siôn Aled Owen.....Cyfieithydd ar y Pryd

**hefyd yn gynrychiolydd Methodistaidd ar Gydgomisiwn Gweithredu'r Cyfamod rhwng Eglwys Fethodistaidd Prydain ac Eglwys Loegr.*

ATODIAD 2

LLYWODRAETH EGLWYSIG YR EGLWYSI CYFAMODOL YNG NGHYMRU AR HYN O BRYD

Anglicaniaid	Bedyddwyr	Methodistiaid	Presbyteriaid	Diwygiedig Unedig
Corff Llywodraethol	Cymanfa Undeb Bedyddwyr y DU	Cynhadledd Fethodistaidd y DG	Cymanfa Gyffredinol	Cymanfa Gyffredinol y DG
Cynhadledd Esgobaethol (6)	Cyngor Undeb y Bedyddwyr	Talaith (2)	Cymdeithasfa (3)	Synod Genedlaethol
Archddiaconiaeth (15)		Cylchdaith (16)	Henaduriaeth (14)	Rhanbarth (12)
Cynhadledd Ddeoniaethol (75)	Cymanfa Ranbarthol		Cwrdd Dosbarth	Cylch/Ardal
Cyngor Plwyf Eglwysig	Eglwys leol	Eglwys leol	Eglwys leol	Gofalaeth

Y mae cefndir lliw i'r cyrff sydd ag awdurdod

ATODIAD 3

CYNNIG O LYWODRAETH EGLWYSIG I EGLWYS YN UNO YNG NGHYMRU